

# CYLCHLYTHYR LLANBEDR D.C. NEWSLETTER

Rhifyn/ Issue 13    Medi / September 2024



## Gair gan y Cadeirydd

Dyma'r ail Gylchlythyr i ni ei gyhoeddi ers i mi ddod yn Gadeirydd y Cyngor, ac mae'n dal i fod yn waith sy'n mynd rhagddo. Y bwriad yw bod mor addysgiadol â phosibl ar nifer eang o bynciau sy'n berthnasol i bawb sy'n byw yn Llanbedr.

Os hoffech gysylltu â'r Cyngor Cymuned ynglŷn ag unrhyw brosiect, anfonwch e-bost at ein Clerc newydd, Jim Jones, ar [clerk.llanbedrdc@gmail.com](mailto:clerk.llanbedrdc@gmail.com)

### Y Cyngor Cymuned

Y Cylchlythyr hwn yw ein prif fforwm ar gyfer cysylltu â'n preswylwyr. Gobeithio y bydd hefyd yn gyfle i bawb ohonoch ddatgan eich barn ar sut i wella.

### Neuadd y Pentref

Mae gennym erthygl gan y Clwb Karate sy'n llwyddiannus iawn ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor Cymuned wedi rhoi grant i'r Clwb ar gyfer technoleg i wella perfformiad eu haelodaeth mewn cystadlaethau lleol a chenedlaethol. Fe welwch hefyd erthygl am y gwelliannau i isadeiledd y Neuadd gan y Gofalwr.

### Eglwys San Pedr

Yn anffodus, mae'r Parch Huw Bryant a'i deulu'n gadael i fynd i Lanrwst. Rydym yn dymuno'n dda iddo ac yn diolch am ei waith egniol dros y 5 mlynedd diwethaf.

## From the Chair

This is the second Newsletter we have published since I became Council Chair and it is still very much a work in progress. We are trying to be as informative as possible on a wide number of subjects relevant to all who live in Llanbedr.

If you would like to contact the Community Council about any projects please email our new Clerk, Jim Jones, at [clerk.llanbedrdc@gmail.com](mailto:clerk.llanbedrdc@gmail.com)

### Community Council

This Newsletter is the main forum we have in contacting our residents, hopefully it also gives everyone the opportunity to contribute their thoughts on what improvements we can make.

### Village Hall

We have an article from the thriving Karate Club. The Community Council have made a grant to the Club for technology to improve their membership's performance in local and national competitions. There is also an article by the caretaker about the improvements to the Hall's infrastructure.

### New St Peter's Church

Sadly, Huw Bryant and his family are leaving to go to Lanrwst, we wish him well and thank him for his energetic work over the last 5 years.

### Hen Eglwys San Pedr

Mae'r Cyngor Cymuned a'r Eglwys yng Nghymru yn gofalu am y fynwent ar y cyd. Y nod yw cynnal yr adeilad tra bod gofal y fynwent yn nwylo gwirfoddolwyr lleol fel gofod ar gyfer bywyd gwyllt. Yn y rhifyn hwn mae gennym broffil o Joseph Ablett a fu'n Arglwydd Llanbedr ar un adeg. Oeddech chi'n gwybod bod ei stad yn Nyffryn Clwyd yn ymestyn hyd at 1000 o erwau bron?

### Gweithgareddau'r AHNE

Rydym yn byw yn yr AHNE ond beth yn union mae'r AHNE yn ei wneud. Yn y rhifyn hwn, rydym yn datgelu manylion am y cyllid grant i ddatblygu canolfan ymwelwyr yn y maes parcio uchaf. Mae cynnig gerbron i uwchraddio'r AHNE yn Barc Cenedlaethol. Beth ydych chi'n ei feddwl am hyn?

Os ydych am gyfrannu at y rhifyn nesaf ar unrhyw bwnc dan haul, cysylltwch â mi, Lyn Evans. Mae llawer o bobl Llanbedr wedi gwneud pethau rhyfeddol o ran gyrfa, yn ddiwylliannol, ym maes chwaraeon ac yn amgylcheddol, felly dywedwch wrthym amdanynt. Diolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu at y rhifyn hwn, yn enwedig i Rachael Gartside am ei roi at ei gilydd ar gyfer yr argraffydd, Finline Rhuthun. Yn olaf, diolch i'r holl wirfoddolwyr am ddosbarthu'r Cylchlythrau.

Lyn Evans  
Email: [lynevans41@yahoo.com](mailto:lynevans41@yahoo.com)

### Old St Peter's Churchyard

The Community Council and the Church in Wales jointly manage the Churchyard. The aim is to preserve the building while the Churchyard is maintained as a wildlife space by local volunteers. In this edition we have a profile of Joseph Ablett once lord of Llanbedr. Did you know his estate extended to nearly 1000 acres of the Vale of Clwyd!

### AONB Activities

Again we live in the AONB but what are they doing, if anything. This edition we have details of the grant funding to develop a visitor centre in the top car park. There is also a proposal to upgrade the AONB to a National Park, what do you think of that proposal?

If you want to contribute to the next edition on any subject contact me, Lyn Evans, there are lots of residents in Llanbedr who have done extraordinary things career wise, culturally, sporting and environmentally, so tell us about them. Thanks to all who have taken time to contribute to this edition, especially to Rachael Gartside for putting it together for the printer Finline of Ruthin. Finally, thanks to all the volunteers for distributing the Newsletters.

Lyn Evans  
Email: [lynevans41@yahoo.com](mailto:lynevans41@yahoo.com)

## Gweddnewid y Porth i Foel Famau

Ers blynnyddoedd lawer mae Moel Famau wedi bod yn Fecca ar gyfer ymwelwyr dydd, yn enwedig o Lerpwl, Cilgwri a Manceinion. Amcangyfrifwyd bod nifer yr ymwelwyr yn 250,000 y flwyddyn am flynyddoedd lawer, ond yn ystod y pandemig bu cynnydd mawr mewn gwybodaeth am fannau delfrydol yng nghefn gwlad, a daeth mwy o ymwelwyr draw.

Yn 2011 rhoddodd y tîm AHNE ganiatâd ar gyfer gosod cwt bugail ger y maes parcio, i ddarparu lluniaeth, cacennau a thlysau lleol. Gyda'r cwt yn bresenoldeb cyson yn ystod y penwythnos, cafwyd gwell dealltwriaeth o weithgareddau'r ymwelwyr. O'r blaen, roedd presenoldeb Warden yn amrywiol ac yn gyfyngedig, gan eu bod yn patrolio ardal eang.

Ers rhedeg y cwt mae'r AHNE wedi sylweddoli bod presenoldeb o'r fath yn ddefnyddiol iawn gyda'u gwaith o ymgysylltu ag ymwelwyr.

Pan gyhoeddwyd cyllid ffyniant bro gan lywodraeth y DU roedd gan yr AHNE sawl prosiect ar y gweill, ac un ohonynt oedd creu adeilad parhaol a gwella cyfleusterau Moel Famau. Fel rhan o'r dyraniad, clustnodwyd tua £1M+ ar gyfer y prosiect hwn.

Mae'r lluniau'n dangos y cynlluniau arfaethedig ar gyfer strwythur parhaol i gartrefu caffi dan do, swyddfa ar gyfer y 'Rangers', storfeydd a bloc toiledau.

## Gateway to Moel Famau gets a makeover

For many years Moel Famau has been a Mecca for day trippers, particularly from Liverpool, Wirral and Manchester. Visitor numbers were estimated at 250,000 per year for many years but there was an explosion of knowledge about rural idylls during the pandemic and more visitors followed.

In 2011 the AONB team granted permission for a shepherd's hut to provide refreshments and locally sourced cakes and trinkets. With a consistent presence during the weekend it was possible to understand visitor activity in depth. In the past a Warden presence was variable and limited, as they patrolled a vast area.

Since running the hut the AONB has found such a presence has been very useful with their visitor engagement work.

When Levelling Up money was announced from the UK government the AONB had several projects ready to go, one of which was to create a permanent building and improve the facilities at Moel Famau. As part of the allocation circa £1M+ was earmarked for this project.

The pictures show the proposed plans for a permanent structure to house an indoor café, Ranger's office, store rooms and a toilet block.

Gweler mwy o wybodaeth ar <https://www.denbighshire.gov.uk/cy/cymunedau-a-byw/datblygu-cymunedol/cronfa-ffyniant-bro/rownd-2-gorllewin-clwyd/gorllewin-clwyd.aspx>

See more info at <https://www.denbighshire.gov.uk/en/community-and-living/community-development/levelling-up-fund/round-2-clwyd-west/clwyd-west.aspx>



## Newyddion Eglwys San Pedr

Rwy'n siŵr erbyn hyn y bydd pawb wedi clywed bod yr Esgob wedi fy ngwahodd i gymryd swydd yn Ardal Genhadaeth Aberconwy yn Llanrwst, sy'n golygu y byddaf yn gadael Ardaloedd Cenhadaeth Llanbedr DC a Dyffryn Clwyd. Wrth i mi ysgrifennu hyn, nid yw'r dyddiad yn bendant eto, ond mae'n debyg mai fy ngweithred olaf cyn symud fydd cynnau tân gwyllt y pentref ar Dachwedd y 1af yn yr Hen Eglwys.

Roedd hi'n adeg rhyfedd iawn pan wnes i symud i Lanbedr bron i 5 mlynedd yn ôl. Dair wythnos ar ôl i mi ddod yma'n Offeiriad, fe ddaeth y Cyfnod Clo cyntaf ac roedd hi'n anodd i mi ddod i'ch adnabod chi i gyd. Ar ôl llifio'r clawdd enfawr o leylandii oedd yn gwahanu fy ngardd oddi wrth y fynwent, roeddwn o leiaf yn gallu dweud helo wrth bobl wrth iddynt fynd heibio am dro bob dydd, llawer ohonynt yn cerdded trwy'r fynwent a heibio'r Eglwys. O'r fan honno y dechreuom ni glirio'r fynwent a'i gwneud yn ofod cymunedol, gwerthu cacennau o'r porth a chreu mannau eistedd i fwynhau'r heddwch a'r llonyddwch. Er mai dyma lle'r ydym yn claddu ein meirw, dros y

## St Peter's Church News

I'm sure by now everyone will have heard the news that the Bishop has invited me to take up a position in Aberconwy Mission Area in Llanrwst which means I will be leaving Llanbedr DC and Dyffryn Clwyd Mission Area. At the time of writing dates are still be worked out but it is likely that my final act before moving will be to set off the village firework display on November the 1st at the Old Church.

When I moved to Llanbedr, almost 5 years ago, it was a strange time. Three weeks after I became your Priest we began the 1st national lockdown and it was hard for me to get to know you all. After chainsawing down the huge leylandii hedge that separated my garden from the Churchyard I was at least able to say hello to people as they took their daily walks, many of which meant walking through the churchyard and past the Church. It was from there we began to clear the churchyard and make it a community space, selling cakes from the porch and creating areas for sitting and enjoying the peace and tranquillity. Over the last few years we have worked hard to ensure that while the churchyard yes is a place

blynyddoedd diwethaf rydym wedi gweithio'n galed i sicrhau nad lle marw mo'r fynwent. Mae'n llawn bywyd a lliw, yn llawn croeso a heddwch i bawb gael ymlacio.

A dyna fel y bu nes o'r diwedd i ni ail-drefnu tu fewn yr eglwys hefyd,- prosiect a fu'n destun sgwrs ers degawd a mw.



Gofod agored, cynnes a deniadol yw'r Eglwys bellach, fel y fynwent y tu allan. Mae yma seddi cyfforddus bob amser, a choffi a chacennau ar gael i bawb ddod i fwynhau harddwch y gwydr lliw a'r llonyddwch bythol. Braf oedd gweld yr holl ymdrech a wnaed yn cael ei gydnabod gan Wobr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwys yn y categori 'Agored i Ymwelwyr'.

Wrth fyfyrto am fy amser yn y pentref a pharatoi i'w adael, alla i ddim peidio meddwl am y dyfodol. Ar adeg pan fo llawer o eglwysy ar draws y wlad yn wynebu dyfodol ansicr, a gwyddom y daw amser pan fydd llawer yn wynebu cau, nid yw Llanbedr yn ddiogel chwaith. Efallai nad yw pawb ohonoch yn sylweddoli ei bod yn costio tua £20,000

where we bury our dead, it is not a dead place, but full of life and colour, a place of welcome and of peace for any and all to relax.

We continued in this way until at last we re-ordered the inside of the church as well, a project which had been spoken about for over a decade.

The Church now, like it's churchyard outside is a space, open, warm and inviting, where there is always a comfy seat, good coffee and cakes available for any and all to come and enjoy the beauty of the stained glass and the timeless tranquillity. It was great to see all the work that has gone into this being recognised by the National Churches Trust Award for 'Open for Visitors'.

As I reflect on my time in the village and prepare to leave it I can't help but think of the future. At a time when many churches across the country are facing uncertain futures and we know that a time will come when many face closure, Llanbedr is not immune. What many may not realise is that it costs around £20,000 a year to keep Llanbedr Church open (the grass cutting alone costs around £2.5k), this must be raised each year from those who attend services and from fundraising, we are also very lucky that some who are not church-goers value the space and contribute regularly to it's upkeep. It is a great testimony to the village and it's community spirit that so far this has been done and I wish to give my heartfelt thanks to the generosity of so many in their time and



## Newyddion Eglwys San Pedr

y flwyddyn i gadw Eglwys Llanbedr ar agor (mae torri gwair yn unig yn costio tua £2.5k). Mae'r arian yn dod bob blwyddyn oddi wrth y rhai sy'n mynychu gwasanaethau ac o godi arian. Rydym hefyd yn hynod lwcus bod unigolion nad ydynt yn eglwyswyr yn gwerthfawrogi'r gofod ac yn cyfrannu'n gyson at ei gynnal. Mae'n dystiolaeth wych i'r pentref a'i ysbryd cymunedol fod hyn wedi gweithio hyd yma a dymunaf ddiolch o galon i haelioni cymaint wnaeth roi o'u hamser a'u doniau yn ogystal ag arian. Elusen yw'r Eglwys, yn bodoli nid er budd ei haelodau'n unig ond i bawb, beth bynnag fo'u cefndir neu gred. Mae dyfodol yr Eglwys i raddau helaeth yn eich dwylo chi. Yn ogystal â bod yma ar gyfer gwasanaethau addoli wythnosol, bedyddio, priodasau ac angladdau, mae'r Eglwys yma hefyd fel gofod cymunedol ar eich cyfer chi.

Bûm fy modd yn gweld yr Eglwys yn datblygu i fod yn ofod cymunedol fel hyn, gyda Chantorion Dyffryn Clwyd, côr cymunedol, a'r cyngherddau, ffeiriau, boreau coffi a digwyddiadau cymdeithasol eraill sy'n dod â phobl ynghyd.

Ond chi sydd i benderfynu beth sy'n digwydd nesaf! Beth hoffech chi ei weld yn digwydd yn eich Eglwys? Mae ar gael i'w llogi, yn debyg iawn i neuadd y pentref (ac rydym yn ceisio gweithio ar y cyd â'r neuadd, nid mewn cystadleuaeth!), ond rydym hefyd wastad yn chwilio am syniadau

## St Peters Church news continued...

talents as well as money. As a charity the Church exists, not for the benefit of members of the churches but for



all, whatever your background or faith beliefs and the future of the Church here is very much in your hands. As well as being here for weekly services of worship, for baptisms, weddings and funerals, it is also here as a community space for you to use.

I have loved seeing the Church develop into this community space, with the Dyffryn Clwyd Singers, a community choir, and the many concerts, fairs, coffee mornings and other social events that bring people together.

But it really is up to you what happens next, what would you like to see happen in your Church? It's available for hire, much like the village hall (and we seek to work in tandem with the hall not in competition!), but we're also always on the look out for ideas for things we can do to serve the

am bethau y gallwn eu gwneud i wasanaethu'r gymuned. Boed yn ddigwyddiadau unwaith ac am byth, fel yr Eco-Ffest a gynhaliwyd gennym, neu weithgareddau grŵp rheolaidd fel y côr, dewch â'ch syniadau a gadewch i ni eu gwireddu.

Hoffwn ddiolch i bawb am y croeso a'r gefnogaeth rydych wedi'u rhoi i mi a'r teulu ers i ni symud yma, o blith aelodau'r Eglwys ac o'r tu allan iddi. Bydd yr Ardal Genhadaeth yn y misoedd nesaf yn llunio hysbyseb i recriwtio rhywun yn fy lle, a byddaf yn gweddio dros y broses ac yn gwybod y bydd pwy bynnag a ddaw yn ffodus i fyw mewn pentref mor hyfryd. Byddaf yn cadw mewn cysylltiad ac yn methu aros i weld beth a ddaw nesaf wrth i'r Eglwys a'r gymuned barhau i dyfu a gwasanaethu'i gilydd.

Yn gywir  
Y Tad Huw a'r teulu.

community. Whether it's one off events, like the Eco-Fest we held, or regular group activities like the choir, bring your ideas and let's put them into action.

I'd like to thank everyone for the welcome and support they've given me and my family since we moved here, both from inside and outside the Church. The Mission Area will be in the coming months working out an advert to recruit a replacement for me and I will pray for the process and know that whoever it is that comes will be lucky to live in such a lovely village. I'll be keeping in touch and can't wait to see what comes next as the Church and community continue to grow and serve.

Yours  
Tad Huw & Family



## Ron Bell, Gofalwr Neuadd y Pentref

### C: Sut wnaethoch chi ddechrau ymwneud â Neuadd y Pentref?

A: Y Cynghorydd Huw Williams ddaeth ataf. Trwy ei gysylltiadau, roedd o wedi clywed am y prosiectau yr oeddwn wedi'u gwneud gyda Jeff Brimble a'i Grwpiau Cymunedol, Ruthin Forward a Grŵp Cymunedol Rhuthun. Cytunais i gwrdd â Huw ac aelodau'r pwyllgor a derbyn swydd Gofalwr y Neuadd.

### C: Pa brosiectau wnaethoch chi wneud gyda grwpiau Jeff Brimble?

A: Llawer o brosiectau amrywiol, rhai ohonynt yn parhau hyd heddiw, - fel Carnifal Rhuthun, Cystadleuaeth Spot the Odd a Bwgan Brain. Roedd eraill yn cynnwys Spooktacular Calan Gaeaf, Dathliadau Nos Galan, penwythnos Hanes Byw Canoloesol gyda Jousting Knights, Neidio Ceffylau, a choffau Brwydr Coed Mametz, lle collodd 102 o filwyr o Ruthun eu bywydau. Roedd y prosiect hwnnw'n cynnwys: arddangosfa 3 wythnos o bethau cofiadwy o'r Rhyfel Byd Cyntaf yn llyfrgell y dref; plant Ysgol Brynhyfryd yn creu 4,000 o babi coch; cynhyrchu DVD gydag atgofion henoed y dref yn sôn am fywyd yn ystod blynyddoedd y rhyfel; tâp sain o'r un peth wedi'i gyflwyno i gymdeithas y Cyn-filwyr Dall; Gorymdaith Pabi yn arwain at Wersyll Hanes Byw, a llyfr a ysgrifennwyd gan Geraint Owain yn dwyn i gof rhan Rhuthun yn y Rhyfel Byd Cyntaf gan gynnwys rhestru enwau, cyfeiriad a manylion y 102 o filwyr a syrthiodd yn Mametz.

## Village Hall Manager Ron Bell

### Q: How did you get involved with the Village Hall?

I was approached by Cllr Huw Williams who through his contacts had heard of the projects I had undertaken with Jeff Brimble and his community Groups, Ruthin Forward and Ruthin Community Group. I agreed to meet Huw and members of the committee and accepted the position of Hall Manager.

### Q: What projects did you develop with Jeff Brimble's groups?

Many and varied, some of which are still active today such as the Ruthin Carnival, Spot the Odd and Scarecrow Competition. Others were Halloween Spooktacular, New Year's Eve Celebrations, Medieval Living History weekend with Jousting Knights, Showjumping, and the commemoration of the Battle of Mametz Wood, with 102 soldiers from Ruthin losing their lives. That project consisted of: a 3-week display of WW1 memorabilia in the town library, the making of 4000 Poppies by pupils of Ysgol Brynhyfryd, production of a DVD recalling the memories of senior citizens of the town recalling life during the war years, an audio tape of the same dedicated to the Blind veteran's association, a Poppy Parade leading to a Living history Camp, and a book written by Geraint Owain recalling Ruthin's Involvement in the First World War including listing the names, addresses and army details of the 102 soldiers that fell at Mametz.

### C: O ble daeth y cyllid ar gyfer y digwyddiadau hyn?

A: Cafwyd grantiau i'r holl brosiectau mawr gan amryw o ddarparwyr cyllid gwahanol.

### C: Ydych chi wedi cael yr un llwyddiant yn y neuadd o ran cael cyllid?

A: Ydym heblaw am un. Ariannwyd y Gampfa awyr agored, a phrynwyd cadeiriau newydd, paneli solar a system wresogi. Y grŵp wnaeth ariannu'r ardal bicnic a'r mannau parcio.

### C: Heblaw am bethau lleol, pa ddigwyddiadau eraill ydych chi wedi'u trefnu?

A: Naw Pencampwriaeth y Byd ar gyfer cyfres y Meistri, mewn gwahanol rannau o'r byd gan gynnwys Japan, lle'r oedd yna 10,000 o gystadleuwyr, Awstralia, Puerto Rica, Seland Newydd, ac Ewrop, sef ar gyfartaledd 5000 o gystadleuwyr o bob gwlad. Rwyf hefyd wedi trefnu Triathlon Ironman, gyda 1500 o Gystadleuwyr. Daeth hwn ag £1.3M i Wynedd gan iddo gael ei lwyfannu yn Llanberis, a'i ddarlledu ar deledu daearol a lloeren. Ar raddfa lai trefnais ras 5k i Plant Mewn Angen ar gyfer y BBC, a gafodd ei ddarlledu'n fyw hefyd, Marathon a Hanner Marathon Caerdydd, a gormod o ddigwyddiadau bach mewn gwahanol rannau o'r DU i mi sôn amdanynt heddiw.

### Q: How were those events funded?

A: All the major projects were grant funded by a variety of funding providers.

### Q: Have you had the same success at the hall in obtaining funding?

A: Yes all except one. The outdoor Gym, New chairs, Solar panels and heating system were grant funded. The group funded the picnic area and car parking bays.

### Q: Outside local events what other events have you organised.

A: Nine World Championships for Masters, in different parts of the world Including Japan, which had 10,000 competitors, Australia, Puerto Rica, New Zealand, and Europe which averaged 5000 competitors at each country. I have also organised the Ironman Triathlon, which had 1500 Competitors and was worth £1.3M to Gwynedd as it was staged in Llanberis, and broadcast on terrestrial and satellite TV. On a smaller scale I organised for BBC Children In Need a 5k run which was also televised live, The Cardiff Marathon and Half Marathon, plus too many to mention small events in different parts of the UK.



## Ron Bell, Gofalwr Neuadd y Pentref

**C: Ydych chi newydd gael gosod system wresogi newydd yn y Neuadd?**

A: Ydym. Ar ôl misoedd o gwyno i'r cwmni gosod blaenorol nad oedd y system yn gweithio'n iawn, fe anfonon nhw beiriannydd annibynnol i ymchwilio i'r broblem. Dywedodd hwnnw nad oedd y system yn "addas i'r diben". Yn y cyfamser cymerwyd y cwmni gwreiddiol drosodd gan Certas a osododd system newydd yn rhad ac am ddim yn syth.

**C: Pa gynlluniau sydd ganddoch chi nesaf?**

A: Mae angen ailaddurno'r neuadd y tu mewn a'r tu allan, a phlannu mwy o blanhigion ar hyd y ffens gefn. Pe bai mwy o gyllid ffyniant bro ar gael, byddem yn gwneud cais i insiwleiddio'r llofft a waliau mewnol y neuadd.

## Village Hall Manager Ron Bell continued..

**Q: Haven't you just had a new heating system Installed?**

A: Yes. After months of complaining to the previous installation company about the system not working correctly, they sent an independent engineer to investigate the problem; he found the system "not fit for purpose" In the meantime the original company were taken over by Certas who immediately installed a new system free of charge.

**Q: What is next in your plans?**

A: The hall needs redecorating inside and out, more plants planted along the back fence. If more "levelling up" money becomes available, we would apply to insulate the loft and interior walls of the hall.



## Hanes: Joseph Ablett, Plas Llanbedr

Ym 1590 priododd Richard Thelwell o Barc Bathafarn â Margaret Lloyd, unig blentyn John Lloyd, perchennog Plas Llanbedr ar y pryd. Pan fu farw John Lloyd etifeddodd Richard Thelwell Neuadd Llanbedr trwy briodas. Bu farw Margaret Lloyd ym 1616. Mae ei charreg fedd, yr un hynaf yn y fynwent sy'n ddarllenadwy, i'w gweld y tu mewn i'r eglwys, i'r chwith o'r ffenestr yn y cefn.



Y teulu Thelwell oedd berchen ar y Neuadd am saith cenhedlaeth, hyd at 1804 pan werthodd y Parch. Edward Thelwell Neuadd Llanbedr i Joseph Ablett 1773 – 1848.

Roedd gan Joseph yr un enw â'i dad a oedd yn bartner yn y busnes teuluol, sef Ablett & Jesse (N.B. Jesse) ym Manceinion, yn gwneud edafedd. Aeth i Ysgol Ramadeg Manceinion ym 1783.

Oherwydd i Ablett gael ei etifeddiaeth pan yn ifanc, gallodd ymddeol i Ddyffryn

## History: Joseph Ablett of Llanbedr Hall

In 1590 Richard Thelwell from Bathafarn Park married Margaret Lloyd, the only child of John Lloyd, the then owner of Llanbedr Hall. When John Lloyd died Richard Thelwell inherited Llanbedr Hall by marriage. Margaret Lloyd died in 1616. Her gravestone, the oldest, legible one in the graveyard can be found inside the church, to the left of the rear window.

The Thelwell family owned the Hall for seven generations until 1804 when the Rev. Edward Thelwell sold Llanbedr Hall to Joseph Ablett 1773 – 1848.

Joseph bore the same name as his father who was a partner in the family thread making business of Ablett & Jesse (N.B. Jesse) in Manchester. He attended Manchester Grammar School in 1783.

Ablett's inheritance at an early age enabled him to retire to the Vale of Clwyd. He travelled extensively in Europe, mainly in Italy. Also he was well acquainted with the local gentry. He made several alterations to Llanbedr Hall itself. It is probable that he commissioned the gardens and landscaping around the hall. He ran a strict household with servants being fined for not observing the household rules.

## Hanes: Joseph Ablett, Plas Llanbedr

Clwyd. Teithiodd yn helaeth yn Ewrop, yn bennaf yn yr Eidal. Roedd hefyd yn gyfarwydd iawn â'r uchelwyr lleol. Gwnaeth nifer o newidiadau i Neuadd Llanbedr ei hun. Mae'n debyg mai fo wnaeth gomisiynu'r gerddi a'r tirlunio o amgylch y neuadd. Roedd yn rhedeg cartref caeth gyda gweision yn cael eu dirwyo am beidio â chadw at y rheolau.

Daeth yn ynad dros sir Ddinbych, ac yn Uchel Siryf ym 1809. Ym 1826 safodd Ablett etholiad i Dŷ'r Cyffredin fel Chwig, ond cafodd ei drechu gan Frederick Richard West o Gastell Rhuthun.

Ym 1833 estynnodd ei diroedd trwy brynu Plas Bathafarn, adeilad yn Llanbedr sydd bellach yn rhestredig.

Rhoddodd dir yn Ninbych lle adeiladwyd Ysbyty Gogledd Cymru rhwng 1844 a 1848. Adeiladodd elusendai yn Stryd Llanrhydd yn Rhuthun hefyd. Ar y tŷ canol roedd carreg gyda'r geiriau "The gift of Mr. and Mrs. Ablett, Llanbedr Hall, for the poor equally of the parishes of Llanbedr, Llanrhydd and Llanfair 1840".

Bu farw Joseph Ablett ar 15 Ionawr 1848 a chladdwyd ef ym mynwent Hen Eglwys San Pedr. Codwyd plac yn cofnodi ei haelioni yng nghyntedd Ysbyty Gogledd Cymru. Gosodwyd plac hefyd yn ddiweddarach yn Eglwys newydd San Pedr, sy'n datgan "dyn duwiol a chyfiawn, o foesau a chwaeth

## History: Joseph Ablett of Llanbedr Hall continued..

He became a magistrate for the County of Denbighshire and, in 1809, High Sheriff. In 1826 Ablett stood for election to the house of Commons as a Whig, but lost out to Frederick Richard West of Ruthin Castle.

In 1833 he extended his lands with the purchase of Bathafarn Hall, a building in Llanbedr that is now listed.

He donated land in Denbigh where the North Wales Hospital was constructed between 1844 – 1848. He also constructed almshouses in Llanrhydd Street in Ruthin. On the centre one was a stone bearing the inscription, "The gift of Mr. and Mrs. Ablett, Llanbedr Hall, for the poor equally of the parishes of Llanbedr, Llanrhydd and Llanfair. 1840".



Joseph Ablett died 15th January 1848 and was buried in the churchyard of the Old St. Peters Church. A plaque recording his generosity was erected in the entrance hall of the North Wales Hospital. A plaque was also later installed in the new St. Peters Church, which states "a pious and just man, of

coeth, a charedigrwydd mawr. Aeth oddi amgylch i wneud daioni, gan gynnig diddanwch i'r rhai blinedig, a lleddfu dioddefaint ei gyd-ddynion. I eisiau a diflastod yr oedd ei bwrs bob amser yn agored, ac ymdrechodd byth i gadw ei weithredoedd o drugaredd yn gyfrinachol."

Bu ei wraig Ann farw ym 1854 yn 80 mlwydd oed, ac fe'i claddwyd gyda'i gŵr. Gellir ymweld â'r bedd yn yr hen fynwent.

Ni chafodd Ann and Joseph blant, felly etifeddwyd Plas Llanbedr Hall gan John Jesse, un o aelodau'r ddau deulu oedd berchen cwmni Ablett & Jesse.

N.B. Edrychwch allan am yr hanes nesaf. h.y. John Jesse.

*Guy Ablett*

cultivated manners and refined taste, and great benevolence. He went about doing good, offering consolation to the weary, and relieving the sufferings of his fellow men. To want and misery his purse was always open, and he ever strove to keep secret his acts of mercy"

His wife Ann died in 1854 at the age of 80 years, and is buried with her husband. Their grave can be visited in the old churchyard.

Ann and Joseph's marriage was childless, so Llanbedr Hall was inherited by John Jesse, one member of the two families who owned the Ablett and Jesse business.

N.B. Look out for the next instalment. i.e. John Jesse.

*Guy Ablett*



## Clwb Karate Llanbedr

Cychwynnodd Clwb Karate JKS Llanbedr DC ym mis Medi 2010. Dosbarth iau yn unig oedd o i ddechrau, gydag 8 aelod, ond dros y 14 mlynedd ers hynny, mae wedi tyfu i fod â dosbarth iau a hŷn gydag oddeutu 70 o aelodau. Ac ym mis Awst eleni fe ddechreuodd dosbarth nos ychwanegol, - Llanbedr DC Dojo. Mae gennym hefyd ddosbarth pob nos Wener yn Llanferres. Bydd hyn yn golygu y gall aelodau hyfforddi ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Gwener bob wythnos.

Mae'r clwb yn sefydliad dielw, felly unwaith y bydd y gwariant angenrheidiol wedi'i wneud, mae'r clwb yn defnyddio unrhyw arian sy'n weddill er budd yr aelodau. Mae'r clwb yn un o'r rhataf yn yr ardal, gan ein bod wedi cadw'r prisiau'r un fath ers 2010. Rydyn eisiau gwneud karate yn gynhwysol i bawb. Mae ein haelod ieuengaf yn 4 oed a'r hynaf dros 70 oed. Rydym yn darparu ar gyfer pobl o bob gallu ac rydym newydd ddechrau dosbarth

## Llanbedr Karate Club

JKS Llanbedr DC Karate Club opened its doors in September 2010. Initially it started as a junior class with 8 members but over the 14 years it has been open, it has grown to have a junior and senior class with approximately 70 members and in August we have an additional evening class starting at Llanbedr DC Dojo. We also have a Friday evening class in Llanferres. This will mean members can train on a Monday, Wednesday and Friday each week.

The club is a non-profit club so once day to day expenditure has been accounted for, the club uses the money to benefit its members. The club is one of the cheapest in the area, keeping the prices the same since 2010. We want karate to be inclusive for everyone. Our youngest member is 4 with our oldest being over 70. We cater for people of all abilities and have just started a mixed-age class to allow parents to train with their children.

oedran cymysg i ganiatáu i rieni hyfforddi gyda'u plant. Gan sylweddoli y gall tair gwaith yr wythnos fod yn ddud, rydym wedi mabwysiadu ffi fisol lle gall myfyrwyr hyfforddi cymaint ag y dymunant am gyfradd is neu barhau i dalu am bob sesiwn yn ei thro.

Dyma sut y gwariwyd peth o'r arian yn ddiweddar: noson wobrwyo flynyddol i'r aelodau iau; cymhorthdal i hyfforddwyr gwadd, y diweddaraf o Japan, i ddysgu yn y clwb; prynu matiau ar gyfer Llanbedr DC Dojo; cyfrannu at ffioedd mynediad a theithio i fyfyrwyr sy'n mynychu digwyddiadau cenedlaethol a rhyngwladol; rhoddion elusennol.

Yn 2020 yn ystod COFID ymunodd y clwb â'r JKS (Japan Karate Shotorenmei), sefydliad byd-eang sydd â'i wreiddiau yn Japan, a hefyd gyda Chorff Llywodraethu Karate Cymru (WKGB). Agorodd hyn lawer o ddrysau i'r clwb a'i aelodau. Roedd yn caniatáu i'n myfyrwyr barhau i hyfforddi a gallu gwyllo rhai o hyfforddwyr gorau'r byd. Gyda'r aelodaeth hon mae gan y myfyrwyr y cyfle i hyfforddi a chystadlu ar draws y byd os dymunant.

Y flwyddyn nesaf bydd un o'n haelodau'n teithio i Japan i hyfforddi gyda'r Hombu dojo. Ac mae yna gystadleuaeth ryngwladol yn Nenmarc lle gobeithiwn y bydd rhai o'n haelodau yn rhan o dîm Cymru sy'n mynd draw.

Realising three times a week can be expensive, we have adopted a monthly fee where students can train as much as they want for a lower rate or continue to pay-as-you-train.

Examples of how the funds have been used recently: annual awards night for the junior members; subsidised guest instructors to teach at the club, the most recent being from Japan; purchased mats for Llanbedr DC dojo; contributed towards entry fees and travel for students attending national and international events; charitable donations.



*Aelodau o glwb Karate JKS Llanbedr DC yn rhoi £1,000 i Ambiwylans Awyr Cymru ar ôl iddynt achub fy mywyd ym mis Mai 2023*

*Members of JKS Llanbedr DC Karate club donating £1,000 to Welsh Air Ambulance after they saved my life in May 2023*



*Aelodau JKS Llanbedr DC gyda Watanabe Sensai  
Members of JKS Llanbedr DC with Watanabe Sensai*

## Clwb Karate Llanbedr

Ar hyn o bryd mae'r clwb yn falch o gael dweud bod gennym gyn-bencampwr Kumite Ewropeaidd (ymladd) a Phencampwr presennol Kata Cymru (patrymau gosod) ymhlith ein haelodau.



*Ryan Moore Sensei yn ennill medal aur ym mhencampwriaethau Cymru*

*Ryan Moore Sensei winning gold at the Welsh championships*

Mae gennym lawer o ddigwyddiadau wedi'u cynllunio ar gyfer gweddill y flwyddyn hon a byddwn yn eich diweddarau pan fydd gennym ragor o wybodaeth.

*Stuart Needham*

## Llanbedr Karate Club Continued...

In 2020 during COVID the club joined the JKS (Japan Karate Shotorenmei), a worldwide organisation based in Japan and WKGB (Welsh Karate Governing Body). This opened a lot of doors for both the club and its members. It allowed our students to continue training and be able to watch some of the best instructors in the world. With this membership our students have the opportunity to train and compete all over the world, should they so wish.

Next year one of our members is travelling to Japan and will be visiting the Hombu dojo to train. There is an international competition in Denmark where we hope some of our members will be part of the Welsh team attending.

The club currently boasts a former European Kumite (fighting) champion and the current Welsh Kata (set patterns) Champion.

We have a lot of events planned for the rest of this year and we will update you when we have further information.

*Stuart Needham*

## Diffibriliwr y Pentref

Mae gennym gymuned glos yn y pentref yma, ond rydw i'n credu y byddai cynllun cyfnewid planhigion yn dod â phawb yn agosach fyth. Mae'r blodau yn yr ardd gymunedol ac o amgylch Eglwys San Pedr yn brydferth, ac mae'r arwerthiant planhigion yn yr eglwys bob amser yn boblogaidd. Felly beth am i ni ymuno i wneud ein gerddi'n fwy lliwgar fyth?

Ydych chi eisiau cysylltu â phobl eraill yn eich ardal? Mae cyfnewid planhigion yn ffordd wych o ddod â'r gymuned ynghyd, rhannu awgrymiadau garddio, a thyfu eich casgliad planhigion yn rhad ac am ddim. Estynnir croeso i'r digwyddiad diarian hwn i selogion garddio yn ogystal â rhywun sydd mond megis dechrau. Dyma ffordd gynaliadwy a hwyliog i ehangu eich gardd heb wario ceiniog!

Gall prosiect fel hwn fod yn gyfle i gyfnewid mwy na phlanhigion; mae'n ymwneud ag adeiladu cymuned, rhannu gwybodaeth, a dathlu'r llawenydd y mae planhigion yn ei roi i'n bywydau. Mae'n gyfle i gysylltu â garddwyr brwd ein cymuned, a gall unrhyw un gymryd rhan, waeth beth fo'i statws cymdeithasol neu economaidd.

Ond mae angen gwirfoddolwyr arnom i helpu i gychwyn y prosiect. Os oes gennych ddiddordeb, gallwch gysylltu â mi trwy fy nghyfeiriad e-bost isod.

[karensheena@btinternet.com](mailto:karensheena@btinternet.com)

## Community Plant Swap

Our village has a strong sense of community and I believe we could enhance it by starting a Community Plant Swap scheme. The flowers in the community garden and around St Peters Church are beautiful. The plant sale at the church is always popular, so let's join forces to make our own garden spaces even more colourful?

Do you want to connect with others in your local area? A plant swap is a fantastic way to bring the community together, share gardening tips, and grow your plant collection at no cost. This money free event welcomes both gardening enthusiasts and beginners. It's a sustainable and fun way to expand your garden without spending any money.

A plant swap can be more than just exchanging greenery; it's about building a community, sharing knowledge, and celebrating the joy plants bring into our lives. This is an opportunity to connect with plant enthusiasts in our community where everyone can participate, regardless of social or economic status.

We need volunteers to help get this project started. If you are interested, you can get in touch with me through my email address below.

[karensheena@btinternet.com](mailto:karensheena@btinternet.com)



## Digwyddiadau i ddod

**Tân Gwylt : nos Wener, Tachwedd y 1af – amser i'w gadarnhau.**

*Digwyddiad ar y cyd rhwng y cyngor cymuned ac eglwys San Pedr. Y Tad Huw sy'n trefnu'r arddangosfa tân gwylt. Paned a chacen i'w gweini wedyn yn yr Eglwys.*

**Gorymdaith a chynnau'r Goleuadau Nadolig: Dydd Gwener, 29 Tachwedd**

*Bydd y digwyddiad hwn yn cychwyn am 6 yr hwyr ar waelod dreif Neuadd Llanbedr, gyda thaith gerdded i fyny at fynwent ac adfeilion yr Hen Eglwys, yna yn ôl i'r Ardd Lechi a gorffen yn yr Eglwys Newydd. Bydd yna win cynnes a mins peis ynghyd â phaned yn aros amdanoch yno.*

**Cinio cymunedol Nadolig: Dydd Gwener 6ed Rhagfyr - 12 am 12.30 yn neuadd y pentref.**

*Geraint Woolford fydd yno i'ch diddanu. Bydd tocynnau ar gael yn nes at yr amser.*

(Digwyddiadau a noddir gan y Cyngor Cymuned mewn partneriaeth ag Eglwys San Pedr).



## Upcoming Events

**Fireworks Display : Friday 1st November - time to be confirmed.**

*This is a joint event between the community council and St Peter's church. Tad Huw is organising the firework display. Coffee and cake to be served afterwards in the church.*



**Christmas Lights Procession and Switch on: Friday 29th November**

*This event will start at 6pm at the bottom of Llanbedr Hall drive, with a walk up to OSP's Churchyard ruins, then back to the Slate Garden and finishing at the Church where mulled wine and minced pies plus coffee/tea will be provided.*

**Christmas Community Meal: Friday 6th December - 12 for 12.30 in the village hall.**

*There will be entertainment provided by Geraint Woolford. Tickets will be available nearer the time.*

(Events subsidised by the Community council in partnership with St Peter's church).